Sunday the 4th of October 2026
Thanksgiving for the Harvest

The reading from Deuteronomy

Lord of all creation, you give us the fruits of the earth in their season and crown the year with your goodness : help us so to receive your gifts with thankful hearts that we may use them to your glory, for the relief of those in want and to meet our daily needs, through Jesus Christ the Bread of life, who is alive and reigns with you in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

The reading from Deuteronomy
(8.7-18)

The Lord your God is bringing you into a good land, a land with flowing streams, with springs and underground waters welling up in valleys and hills, a land of wheat and barley, of vines and fig trees and pomegranates, a land of olive trees and honey, a land where you may eat bread without scarcity, where you will lack nothing, a land whose stones are iron and from whose hills you may mine copper. You shall eat your fill and bless the Lord your God for the good land that he has given you.

Take care that you do not forget the Lord your God, by failing to keep his commandments, his ordinances, and his statutes, which I am commanding you today. When you have eaten your fill and have built fine houses and live in them, and when your herds and flocks have multiplied, and your silver and gold is multiplied, and all that you have is multiplied, then do not exalt yourself, forgetting the Lord your God, who brought you out of the land of Egypt, out of the house of slavery, who led you through the great and terrible wilderness, an arid wasteland with poisonous snakes and scorpions. He made water flow for you from flint rock, and fed you in the wilderness with manna that your ancestors did not know, to humble you and to test you, and in the end to do you good.

Do not say to yourself, "My power and the might of my own hand have gotten me this wealth." But remember the Lord your God, for it is he who gives you power to get wealth, so that he may confirm his covenant that he swore to your ancestors, as he is doing today.

The Psalm
(65.8-13)

You visit the / earth and / water it: you / make it / very / plenteous. The river of God is / full of / water: you prepare grain for your people, for / so you pro/vide • for the / earth.

You drench the furrows and / smooth out the / ridges: you soften the ground with / showers and / bless its / increase. You crown the year / with your / goodness: and your / paths • over/flow with / plenty.

May the pastures of the wilderness / flow with / goodness: and the / hills be / girded with / joy. May the meadows be clothed with / flocks of / sheep: and the valleys stand so thick with corn * that / they shall / laugh and / sing.

The reading from 2 Corinthians
(9.6-15)

The one who sows sparingly will also reap sparingly, and the one who sows bountifully will also reap bountifully. Each of you must give as you have made up your mind, not reluctantly or under compulsion, for God loves a cheerful giver. And God is able to provide you with every blessing in abundance, so that by always having enough of everything, you may share abundantly in every good work. As it is written, "He scatters abroad, he gives to the poor; his righteousness endures forever."

He who supplies seed to the sower and bread for food will supply and multiply your seed for sowing and increase the harvest of your righteousness. You will be enriched in every way for your great generosity, which will produce thanksgiving to God through us; for the rendering of this ministry not only supplies the needs of the saints but also overflows with many thanksgivings to God.

Through the testing of this ministry you glorify God by your obedience to the confession of the gospel of Christ and by the generosity of your sharing with them and with all others, while they long for you and pray for you because of the surpassing grace of God that he has given you. Thanks be to God for his indescribable gift!

The reading from the Gospel according to Saint Luke
(17.11-19)

On the way to Jerusalem Jesus was going through the region between Samaria and Galilee. As he entered a village, ten lepers approached him. Keeping their distance, they called out, saying, "Jesus, Master, have mercy on us!"

When he saw them, he said to them, "Go and show yourselves to the priests." And as they went, they were made clean.

Then one of them, when he saw that he was healed, turned back, praising God with a loud voice. He prostrated himself at Jesus' feet and thanked him. And he was a Samaritan.

Then Jesus asked, "Were not ten made clean? But the other nine, where are they? Was none of them found to return and give praise to God except this foreigner?"

Then he said to him, "Get up and go on your way; your faith has made you well."

The reading from Deuteronomy

Lord of the harvest, with joy we have offered thanksgiving for your love in creation and have shared in the bread and the wine of the kingdom : by your grace plant within us such reverence for all that you give us that will make us wise stewards of the good things we enjoy, through Jesus Christ our Lord. AMEN

Dydd Sul 4ain Hydref 2026
Diolchgarwch am y Cynhaeaf

Colect y dydd

Arglwydd yr holl greadigaeth, yr wyt yn rhoi i ni ffrwythau'r ddaear yn eu pryd ac yn coroni'r flwyddyn â'th ddaioni : cynorthwya ni i dderbyn dy roddion â cholonnau diolchgar inni eu defnyddio i'th ogoniant, er lles y rhai sydd mewn angen a diwallu ein hanghenion beunyddiol; trwy Iesu Grist, Bara'r Bywyd, sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

Darlleniad o Ddeuteronomium
(8.6-18)

Cadwch orchmynion yr ARGLWYDD eich Duw trwy rodio yn ei ffyrdd a'i barchu; oherwydd y mae'r ARGLWYDD eich Duw yn dod â chwi i wlad dda, gwlad ac ynddi ffrydiau dŵr, ffynhonnau, a chronfeydd yn tarddu yn y dyffrynnoedd ac ar y mynyddoedd; gwlad lle mae gwenith a haidd, gwinwydd, ffigys a phomgranadau, olewydd a mêl; gwlad lle cewch fwyta heb brinder, a lle ni bydd arnoch angen am ddim; gwlad y mae ei cherrig yn haearn a lle y byddwch yn cloddio copr o'i mynyddoedd. Wedi ichwi fwyta a chael digon, byddwch yn bendithio'r ARGLWYDD eich Duw am y wlad dda y mae'n ei rhoi ichwi.

Gofalwch na fyddwch yn anghofio'r ARGLWYDD eich Duw nac yn gwrthod cadw ei orchmynion, ei gyfreithiau a'i ddeddfau, yr wyf yn eu gorchymyn ichwi heddiw. Pan fyddwch wedi bwyta a chael digon, ac adeiladu tai braf i fyw ynddynt, a phan fydd eich gwartheg a'ch defaid yn cynyddu, a digon o arian ac aur gennych, a'ch holl eiddo yn cynyddu, yna peidiwch ag ymffrostio ac anghofio'r ARGLWYDD eich Duw, a ddaeth â chwi allan o wlad yr Aifft, o dŷ caethiwed. Ef oedd yn eich arwain trwy'r anialwch mawr a dychrynllyd, lle'r oedd seirff gwenwynig a sgorpionau, a thrwy dir sych heb ddim dŵr, lle y gwnaeth i ddŵr darddu allan i chwi o'r graig galed. Porthodd chwi hefyd yn yr anialwch â manna, nad oedd eich hynafiaid yn gwybod beth oedd, a hynny er mwyn eich darostwng a'ch profi, fel y byddai'n dda arnoch yn y diwedd.

Os dywedwch, "Ein nerth ein hunain a chryfder ein dwylo a ddaeth â'r cyfoeth hwn inni", yna cofiwch yr ARGLWYDD eich Duw, oherwydd ef sy'n rhoi nerth ichwi i ennill cyfoeth, er mwyn cadarnhau'r cyfamod a dyngodd i'ch hynafiaid, fel y mae heddiw.

Y Salm
(65.9-13)

Rwyt yn gofalu am y ddaear ac yn ei dyfrhau, gwnaethost hi'n doreithiog iawn; y mae afon Duw'n llawn o ddŵr; darperaist iddynt ŷd. Fel hyn yr wyt yn trefnu ar ei chyfer:

dyfrhau ei rhychau, gwastatáu ei chefnau, ei mwydo â chawodydd a bendithio'i chnwd. Yr wyt yn coroni'r flwyddyn â'th ddaioni, ac y mae dy lwybrau'n diferu gan fraster.

Y mae porfeydd yr anialdir yn diferu, a'r bryniau wedi eu gwregysu â llawenydd; y mae'r dolydd wedi eu gwisgo â defaid, a'r dyffrynnoedd wedi eu gorchuddio ag ŷd. Y maent yn bloeddio ac yn gorfoleddu.

Darlleniad o 2 Corinthiaid
(9.6-15)

Cofiwch hyn: a heuo'n brin a fed yn brin, a heuo'n hael a fed yn hael. Rhaid i bawb roi o wirfodd ei galon, nid o anfodd neu o raid, oherwydd rhoddwr llawen y mae Duw'n ei garu. Y mae Duw yn gallu rhoi pob gras i chwi yn helaeth, er mwyn i chwi, ar ben eich digon bob amser ym mhob peth, allu rhoi yn helaeth i bob gwaith da. Fel y mae'n ysgrifenedig: "Gwasgarodd ei roddion ymhlith y tlodion, y mae ei haelioni yn para am byth."

Bydd yr hwn sydd yn rhoi had i'r heuwr a bara iddo'n ymborth yn rhoi had i chwithau ac yn ei amlhau; bydd yn peri i ffrwyth eich haelioni gynyddu. Ym mhob peth cewch eich cyfoethogi ar gyfer pob haelioni, a bydd hynny trwom ni yn esgor ar ddiolchgarwch i Dduw. Oherwydd y mae'r cymorth a ddaw o'r gwasanaeth hwn, nid yn unig yn diwallu anghenion y saint ond hefyd yn gorlifo mewn llawer o ddiolchgarwch i Dduw.

Ar gyfrif y prawf sydd yn y cymorth hwn, byddant yn gogoneddu Duw am eich ufudd-dod i Efengyl Crist, yr Efengyl yr ydych yn ei chyffesu, ac am haelioni eich cyfraniad iddynt hwy ac i bawb. Byddant yn hiraethu amdanoch ac yn gweddïo ar eich rhan, oherwydd y gras rhagorol a roddodd Duw i chwi. Diolch i Dduw am ei rodd anhraethadwy.

Darlleniad Efengyl yn ôl Sant Luc
(17.11-19)

Yr oedd ef, ar ei ffordd i Jerwsalem, yn mynd trwy'r wlad rhwng Samaria a Galilea, ac yn mynd i mewn i ryw bentref, pan ddaeth deg o ddynion gwahanglwyfus i gyfarfod ag ef. Safasant bellter oddi wrtho a chodi eu lleisiau arno: "Iesu, feistr, trugarha wrthym."

Gwelodd ef hwy ac meddai wrthynt, "Ewch i'ch dangos eich hunain i'r offeiriaid." Ac ar eu ffordd yno, fe'u glanhawyd hwy.

Ac un ohonynt, pan welodd ei fod wedi ei iacháu, a ddychwelodd gan ogoneddu Duw â llais uchel. Syrthiodd ar ei wyneb wrth draed Iesu gan ddiolch iddo; a Samariad oedd ef.

Atebodd Iesu, "Oni lanhawyd y deg? Ble mae'r naw? Ai'r estron hwn yn unig a gafwyd i ddychwelyd ac i roi gogoniant i Dduw?"

Yna meddai wrtho, "Cod, a dos ar dy hynt; dy ffydd sydd wedi dy iacháu di."

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Arglwydd y Cynhaeaf, yr ydym wedi offrymu diolgarwch yn llawen am dy gariad yn y greadigaeth ac wedi cyfranogi o fara a gwin y deyrnas : trwy dy ras planna ynom y fath barch at bopeth yr wyt yn rhoi inni fel y byddwn yn stiwardiaid doeth o'r pethau da yr ydym yn eu mwynhau; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN



Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru. Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddïau Ôl-Gymun o'r llyfr Y Calendr Newydd a'r Colectau Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmau trwy ganiatâd o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004 Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.